**Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru** **NWR 03-99(min)**

**Cofnodion**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 8 Hydref 1999

**Amser:** 10.00am tan 1.00pm

**Lleoliad:** Guildhall, Wrecsam

**Yn bresennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Conwy |
| Alison Halford | Delyn |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Tom Middlehurst | Alyn a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

Dywedodd y Cadeirydd fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn oddi wrth Dafydd Elis Thomas, Ann Jones,

John Marek a Rod Richards. Diolchodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am eu lletygarwch, a dywedodd fod y Pwyllgor wedi penderfynu cyfarfod yn Wrecsam er mwyn codi proffil y Cynulliad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a rhoi cyfle i bobl Wrecsam weld y Cynulliad ar waith.

**Eitem 1: Cyflwyniad gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru gyda thrafodaeth yn dilyn**

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru i'r cyfarfod. Cyflwynodd Cadeirydd yr Awdurdod Iechyd, Enid Rowlands, ei chydweithwyr: David Hands, Prif Weithredwr, Peter Higson, Cyfarwyddwr Gofal Cleifion, a Jeremy Corson, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd. Dywedodd fod yr Awdurdod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â'r Pwyllgor a'i fod yn falch mai iechyd oedd y mater cyntaf yr oedd y Pwyllgor yn edrych arno. Roedd cryn bwysau ar y gwasanaeth iechyd ac roedd yr Awdurdod yn wynebu rhai dewisiadau anodd.

Gwnaeth David Hands gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar y thema o weithio mewn partneriaeth er mwyn iechyd.

Yn dilyn hyn, ymatebodd tîm yr Awdurdod Iechyd i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor ac fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- ysmygu oedd un o'r materion pwysicaf ar hyn o bryd mewn perthynas â iechyd y cyhoedd, ac roedd yr Awdurdod wedi gwneud cynnig i'r Cynulliad ar gyfer cynllun hybu iechyd. Targedau allweddol fyddai lleihau ysmygu ymhlith merched ifainc ac annog mwy o amgylcheddau lle na chaniateir ysmygu. Gallai deddfwriaeth i gynyddu'r oedran y gall pobl ifanc brynu tybaco fod o gymorth, ond y mater allweddol oedd gorfodi'r terfyn presennol;
- nid oedd yr Awdurdod yn gallu cadarnhau pryd y gellid dechrau adeiladu'r ysbyty cymunedol arfaethedig ym Mhorthmadog, gan mai mater i'r Cynulliad oedd cyllid cyfalaf ar gyfer ysbytai cymunedol a buddsoddiadau mawrion eraill. Roedd y cynllun ar gyfer adeiladu ysbyty cymunedol newydd yn Nhreffynnon mewn cyfnod tebyg yn y broses ddatblygu;
- dywedodd yr Awdurdod fod Ysbyty Cymunedol Y Fflint yn darparu gwasanaeth da, o fewn terfynau'r adnoddau. Pe bai arian cyfalaf ar gael hoffai'r Awdurdod ddatblygu'r Ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn hanfodol bod cyllid yn parhau i gael ei ddosbarthu gan y Cynulliad, trwy gyfeirio at fformiwla wrthrychol;
- roedd yr Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda'r sector gwirfoddol, ac yn rhoi grantiau o £1.3 miliwn i'r sector bob blwyddyn. Byddai Cynghreiriau Iechyd, a gâi eu sefydlu y flwyddyn nesaf, yn cynnwys y sector gwirfoddol wrth gynllunio gwasanaethau iechyd;
- byddai Cynghreiriau Iechyd Strategol yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithio'n agosach mewn partneriaeth, rhwng yr Awdurdod a'r chwech awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Roedd gofyn i'r Awdurdod Iechyd a'r awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd er mwyn llunio pecynnau gofal priodol i'w poblogaethau;
- roedd pob cyffur newydd yn cael ei asesu am ei effeithiolrwydd a'i gost-effeithiolrwydd cyn iddo

gael ei roi ar bresgripsiwn gan y GIG. Roedd cyffuriau cyffredinol yn cael eu defnyddio lle'r oeddynt yn effeithiol am eu bod yn rhatach. Nid oedd yn wir bod cyffuriau rhatach yn cael eu defnyddio yng Nghymru ac nad oedd yr Awdurdod yn cefnogi'r syniad o roi presgripsiynau yn ôl côd post;
- gofal sylfaenol gwell a pherthynas well rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, oedd yr allweddau i fynd i'r afael â'r broblem o gleifion oedrannus yn cymryd gwlâu am gyfnodau hirion oherwydd salwch, a'u hatal rhag mynd yn analluog i fyw y tu allan i'r sefydliad. Nodwyd bod 60% o wlâu mewn ysbytai yn cael eu defnyddio gan gleifion dros 60 mlwydd oed.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Awdurdod Iechyd am gyflwyniad defnyddiol iawn ac am ymateb yn llawn i gwestiynau'r Pwyllgor.

Yna cafodd y Pwyllgor egwyl am 15 munud.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, gyda thrafodaeth yn dilyn**

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Fforwm Economaidd Gogledd Cymru i'r cyfarfod. Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm, David Rowe-Beddoe ei gydweithwyr: Sheila Dury - Cadeirydd y Grðp Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau, Trefor Jones - Cadeirydd y Grðp Datblygu Busnes Cystadleuol a'r Cynghorydd W J Williams - Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog Cludiant. Gwnaed cyflwyniadau gan Sheila Dury ar *Oblygiadau Sgiliau Dyfodol Cymru i Ogledd Cymru*, gan Trefor Jones ar *Gyswllt Busnes, Cymhorthion Gweithredu, Safleoedd Strategol Gogledd Cymru a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu*, a chan y Cynghorydd Williams ar *Gysylltiadau Rheilffordd rhwng y Gogledd a'r De, Cysylltiadau Ffordd rhwng y Gogledd a'r De a gwelliannau i reilffordd Arfordir Gogledd Cymru ar gyfer teithwyr a llwythi.*

Yn dilyn y cyflwyniadau ymatebodd tîm y Fforwm Economaidd i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor ac fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- roedd economi Gogledd Orllewin Cymru yn dibynnu ar wella cysylltiadau cyfathrebu ond roedd yn ymddangos bod y Fforwm yn rhoi llai o flaenoriaeth i gysylltiadau rheilffordd rhwng Caergybi a Chaerdydd. Cadarnhaodd y Fforwm mai sicrhau gwasanaethau ychwanegol rhwng Caergybi a Chaerdydd oedd ei flaenoriaeth gyntaf o hyd. Fodd bynnag, roedd Wales and West Trains eisiau £1.7 miliwn y flwyddyn i redeg un trên ychwanegol y dydd ar y rheilffordd honno. Roedd Central Trains yn awyddus i wella gwasanaethau ar hyd arfordir Gogledd Cymru a gellid cyflawni hynny'n fwy buan ac am lai o gost;
- roedd cais wedi'i gyflwyno gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr awdurdodau lleol eraill am Grant Cludiant er mwyn cynyddu cyflymder ar reilffordd arfodir Gogledd Cymru ac fe anogwyd y Cynulliad i'w gefnogi;
- roedd Railtrack wedi amcangyfrif y byddai'r gost o uwchraddio rheilffordd arfordir Gogledd

Cymru i gymryd wageni llwythi 9’6’’ dros £100 miliwn. Fodd bynnag , credai ymgynghorwyr y byddai’r gost yn llai ac roedd trafodaethau gyda Railtrack yn mynd yn eu blaenau;

- roedd Cyngor Sir Y Fflint wedi gwella Gorsaf Y Fflint ond heb allu dwyn perswâd ar weithredwyr trenau i stopio yno. Yn ogystal, roedd disgwyl i’r Cyngor dalu am welliannau i’r bont. Nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda gweithredwyr i’w hannog i stopio yn Y Fflint ond roedd Railtrack wedi bod yn gyndyn i fuddsoddi yn y rhwydwaith;
- byddai pobl anabl yn elwa ar fwy o drenau uniongyrchol gan fod y broses o newid trenau yn anodd. Dylai Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd sicrhau bod uwchraddio gorsafoedd yn cael blaenoriaeth uwch. Cytunodd y Fforwm i drafod hyn gyda Railtrack;
- roedd ffocws Sgiliau Dyfodol Cymru ar wella sgiliau cyffredinol yn iawn ond fe gydnabuwyd bod sgiliau penodol yn bwysig iawn a bod angen datblygu’r rhain;
- oherwydd y gallai’r trothwy TAW rwystro twf cwmni bychan, fe awgrymwyd graddfa raddoledig fel cymorth gweithredu posibl. Nododd y Pwyllgor fod cyfraddau TAW yn cael eu pennu ar lefel y DU ac ni ellid eu defnyddio felly fel cymorth gweithredu yng Nghymru;
- roedd cynnig wedi’i wneud yng nghyfarfod y Sioe ar Daith yn Y Rhyl i sefydlu cronfa arbennig ar gyfer menter ymhlith merched. Teimlai’r Fforwm ei bod yn well cefnogi busnes yn gyffredinol a chynnwys merched yn y broses honno. Ni fyddai gwahaniaethu positif yn ddefnyddiol;
- roedd perygl bod y Cynghorau Hyfforddiant a Menter (TECs) yn cymryd y rhan fwyaf o gyllid Ewropeaidd ac nad oedd buddsoddiad yn cyrraedd y bobl gyffredin. Nodwyd bod cyllid y TECs yn cael ei archwilio’n fanwl a bod newidiadau i’r drefn gyllido yn debygol. Roedd TECs yn effeithlon iawn am gontractio gwasanaethau allan a defnyddio’u cyllid wrth gefn i ariannu, er enghraifft, grwpiau cyswllt Gogledd Cymru. Byddai cyfrifon dysgu unigol yn cwrdd ag anghenion unigolion ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol;
- roedd yn hanfodol annog busnesau bach i ddefnyddio’r Rhyngrwyd a datblygu strategaeth gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer Gogledd Cymru. Nododd y Pwyllgor fod llawer o brosiectau bach da, yn enwedig ym maes addysg ond nid oedd yr ymateb yn dda iawn. Roedd digon o linellau ffôn ond roedd problemau technegol mewn cyfnewidfeydd yr oedd y Fforwm yn eu trafod gyda British Telecom ac Awdurdod Datblygu Cymru. Byddai arolwg gan BT ar gael erbyn Mawrth 2000.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Fforwm am y cyflwyniad a dywedodd fod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi gwaith y Fforwm.

**Eitem 3: Adroddiad gan y grðp anffurfiol ar gysylltiadau rheilffordd rhwng y de a’r gogledd**

O ystyried y drafodaeth o dan eitem 2 ar gysylltiadau rheilffordd, cytunwyd y dylai’r eitem hon gael ei gohirio.

*Pwyntiau gweithredu*

- Cynnwys yr adroddiad ar gysylltiadau rheilffordd rhwng y de a’r gogledd ar yr agenda nesaf – Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 4: Ystyried drafft y flaenraglen waith**

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Pwyllgor nodi drafft y flaenraglen waith.

Yn ystod y drafodaeth, fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- roedd un awdurdod lleol wedi tynnu’n ôl o drafodaethau ynglþn â sefydlu llwybr seiclo, fel rhan o’r Llwybr Seiclo Cenedlaethol, rhwng Caergybi, Bangor a Chaer. Roedd yn hanfodol bod y llwybr yn cael ei gwblhau ac fe wahoddwyd y Pwyllgor i’w gymeradwyo. Dywedodd Alison Halford ei bod eisoes wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Y Fflint ynglþn â hyn ac fe gytunodd i basio copi o’r ateb i’r Pwyllgor;
- os oedd y Pwyllgor am gynnal cyfarfodydd fforwm agored, mae’n rhaid i’r cyfarfodydd fod yn wirioneddol agored. Nododd y Pwyllgor fod Heddlu Gogledd Cymru yn trefnu cyfarfodydd fforwm agored ac y gallai’r Pwyllgor ddysgu oddi wrth eu dulliau gweithredu.

Cytunodd y Pwyllgor:

- i wahodd awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gyfarfod y Pwyllgor yng Nghaernarfon ar 10 Rhagfyr 1999. Awgrymwyd y dylai’r awdurdodau ddarparu diweddariad ynglþn â’u cynnydd ar amcan 1;
- y dylai aelodau basio awgrymiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol i’r Ysgrifenyddiaeth;
- nad oedd digon o amser i drefnu cyfarfod fforwm agored ar 12 Tachwedd ond y dylid trefnu un ym mis Ionawr. Roedd pynciau posibl yn cynnwys Fforwm Blynyddoedd Cynnar Gogledd Cymru a datblygu cynaliadwy;
- i ddirprwyo i’r Cadeirydd benderfyniadau ynglþn â pha gynigion ar gyfer busnes Pwyllgor, a dderbynnir gan sefydliadau ac unigolion, a ddylai gael eu cynnwys yn y flaenraglen waith.

*Pwyntiau gweithredu*

- Blaenraglen waith i’w hadolygu a’i dosbarthu - **Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth**.
- Gwahodd awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gyfarfod y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr – **Ysgrifenyddiaeth**.
- Darparu copi o ateb Cyngor Sir Y Fflint i broblemau’r Llwybr Seiclo Cenedlaethol i’r Ysgrifenyddiaeth er mwyn ei ddosbarthu i’r Pwyllgor – **Alison Halford a’r Ysgrifenyddiaeth**.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 2 Gorffennaf 1999**

Derbyniwyd y cofnodion.

| | |
|---|---|
| **Ysgrifenyddiaeth** | **Hydref 1999** |